

Cwmni

Rhifyn 176

Pris 80c

Hydref 2015

Thomas Morris, cyn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, fu'n gyfrifol am lanw siop lyfrau Waterstone, yng Nghaerdydd fore Sadwrn, 29ain o Awst. Yno, roedden ni i gyd i ddathlu lansiad ei lyfr cyntaf "We Don't Know What We Are Doing." Parhad tud 3.....





Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428/ 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

Cynorthwy-ydd: Jan Penney
Lowri@mentercaerffili.org

Digwyddiadur: Lowri Jones

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Gwilym Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

SOSSteoporosis.

Annwyl Ddarllenwyr

Allwch chi helpu?

Mae **1** mewn **2** o ferched ac **1** mewn **5** o ddynion dros 50 oed yn dioddef o Osteoporosis, cyflwr sydd cymaint mwy na thorri asgwrn. Gall

Achosi poen cyson yn y cefn a'r clun. Wneud gweithred syml o agor ffenest neu ddrws yn anodd

Effeithio ar y balans gan achosi codymau. Achosi crymu sy'n effeithio ar yr ysgyfaint ac anadlu

Er bod y cyflwr yn effeithio cymaint, y cyngor mae Llywodraeth Cymru yn ei gael (gan UK NSC - pwyllgor sgrinio) yw na fyddai sgrinio yn 50 oed yn gost effeithiol ac ni fydd adolygiad arall tan 2016/17. Trwy fy Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, rwyf wedi derbyn llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac mae ei hymateb hi yn fwy cadarnhaol a chalonogol. Ond er mwyn gweithredu mae hi angen **tystiolaeth** o'r problemau sydd ynghlwm ag osteoporosis.

Felly, 'sgynnoch chi neu aelod o'r teulu unrhyw stori neu brofiad i'w rannu â'r Comisiynydd? Gall fod yn brofiad positif neu negyddol. Unrhyw beth sydd yn sôn am y driniaeth/y gefnogaeth neu'r **diffyg** triniaeth/gefnogaeth a dderbynioch ers i chi wybod eich bod yn dioddef o'r cyflwr hwn.

Os allwch helpu, ysgrifennwch at **Johanna Davies, Adeiladau Cambria, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL.**

Gyda'n gilydd, gallwn ymgyrchu i gael sgrinio cynnar yng Nghymru, fydd yn arwain at driniaeth gynnar, fydd wedyn, (**a dyma fy ngobaith**) yn galluogi pobl hŷn fyw'n annibynnol yn hirach yn eu cartrefi eu hunain. Siawns bod gan bawb hawl i hyn.

Diolch am ddarllen.

Delyth Owen. (Arwelfa, Y Groeslon).




Wedi gadael yr ysgol graddiodd Tom ym Mhrifysgol y Drindod yn Nulyn. Yna, aeth ymlaen i astudio am radd M.A. mewn Ysgrifennu Creadigol (Ffuglen Ryddieithol) ym Mhrifysgol East Anglia. Yn 2013 cyrhaeddodd y rhestr fer yng nghystadleuaeth stori fer y Willesden Herald a chyhoeddwyd ei waith yn The Irish Times..

Ond lansio'i gyfrol “We Don't Know What We Are Doing” oedd ffocws yr holl sylw'r bore Sadwrn hwnnw. A bu'r cefnogwyr yn gorfod disgwyl am dipyn o amser i brynu copi o'r llyfr. Roedden ni i gyd yn gorfod aros am fod pawb yn y ciw hir nid yn unig yn disgwyl llofnod yr awdur ond am ei fod yntau yn awyddus am sgwrs gyda phob un yn ei dro. Mae'n werth nodi hefyd mai Faber & Faber sydd wedi cyhoeddi ei lyfr.

Mae'r rhan fwyaf o'r storïau wedi eu gosod yng Nghaerffili, tref enedigol yr awdur. Ac mae'r cyfeiriadau at fannau fel Parc Morgan Jones, Castle View a'r castell yn creu naws gartrefol i ni sydd yr un mor gyfarwydd â'r cyffiniau hynny. Mae'n arsylwi'n fanwl ac yn cynnig sylwadau treiddgar ar yr hyn mae'n ei weld.

Yn sicr mae gan Thomas arddull drawiadol. Yn un peth mae'n ddi-flewyn-ar-dafod yn ei ddisgrifiadau a'i ddewis o eiriau. Mae'n disgrifio digwyddiadau rhywiol ac yn defnyddio rhegfeydd yn hyderus a chwbl ddigyfaddawd! Ond nid defnyddio iaith gref mae Thomas am nad oes ganddo ddim byd gwell i'w ddweud. I'r gwrthwyneb, mae'n arsylwi'n graff ar ddigwyddiadau byw a sefyllfaoedd dychmygus. Hoffais y canlynol,

“The shop across the road from New Look is boarded up. Posters for a travelling circus are pasted to the boards. To the best of my knowledge, a travelling circus has never passed through Caerphilly, but whenever a shop closes down, a poster advertising one always appears.”



Wrth nodi'r dyfyniadau fel hyn daw'r darllenwr yn gynyddol ymwybodol o gryfder y trosiadu megis, “Richard looks around and stares at the high-rise flats that stand above Caerphilly, like massive audio speakers set on mute.”“He can feel her lips smiling” “He hasn't eaten since breakfast and his ears throb with hunger.”

Mae Tom hefyd wedi cydnabod cymorth *Undercurrents* - gŵyl flynyddol Cwm yr Aber - am roi llwyfan i'w waith yn 2006. Dywedodd, yr adeg honno, o'i gartref yn Nulyn, lle mae wedi byw ers 2005, “Ysbrydolodd Gŵyl Cwm yr Aber fi i ysgrifennu a chwblhau'r stori fer gyntaf i fi ei hysgrifennu. Roedd y wefr a gefais o gwblhau'r stori yn anferthol. Bu gosod y stori yn y gystadleuaeth yn ddilysiant enfawr i'm hysgrifennu ar adeg greiddiol. Bu hyn yn

Clwb Cerddoriaeth Cwm Rhymni

Lansiwyd rhaglen 2015-16 y Clwb Cerddoriaeth bnawn Sadwrn, 12fed o Fedi gyda chyngerdd arbennig o dda. Rydym wedi dod i gymryd safonau uchel y gymdeithas hon yn ganiataol ar hyd y



blynyddoedd ond, rhaid dweud, bod y gyngerdd hon ymhlith y gorau a gafwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd hi'n hyfryd bod y Gymdeithas am gyflwyno'r rhaglen er cof am ei diweddar lywydd Mervyn Burch. Ac yn fwy priodol fyth oedd y ffaith bod dau o'r cantorion wedi perfformio gwaith a gyfansoddwyd gan Mervyn.



Yn ymddangos o flaen cynulleidfa ddigon tenau yn Ysgol Lewis i Ferched oedd y *mezzo-soprano* Kate Woolveridge, y bariton, Owen Webb. A chafwyd detholiad o glasuron poblogaidd ar gyfer unawdwy a deuawdau o Mozart i Lloyd Webber.

Rhaid sôn am y perfformiad gwefreiddiol a gafwyd gan y pianydd Nicola Rose. Anaml bydd cynulleidfa'n sylwi ar y pianydd mewn cyngerdd fel hon. Ac er na wnaeth Nicola dynnu sylw ati hi ei hun mewn unrhyw ffordd roedd ei medrusrwydd ar yr offeryn yn drawiadol. Ac, efallai'n fwy pwysig, roedd hi i weld yn mwynhau'r gyngerdd cymaint â'r perfformwyr a'r gynulleidfa.



Dwy awr o fwynhad pur. Mae'n biti mawr nad oes mwy yn dod i gefnogi oherwydd dim ond £8 yw'r pris mynediad a gellir prynu tocyn blwyddyn am £50, tipyn o arbediad. Dewch i gefnogi, mae hwn yn Glwb neilltuol iawn.

Rhaglen 2015 - 16

Cynhelir pob cyngerdd ar ddydd Sadwrn ac yn dechrau am 2:30 y.p.

10fed o Hydref	Llewelyn Ifan Jones (Telyn)	Canolfan Siloh
12fed o Ragfyr	Borders Trio (Clarinét, Fiolín a Phiano)	Ysgol Lewis
23ain o Ionawr	Project Jam Sandwich (Pumawd)	Canolfan Siloh
27ain o Chwefror	Ystradivarius (Pedwarawd Llinynnol ag Organ Siambr, Virginal)	Canolfan Siloh
19eg o Fawrth	Clare Hammond (Piano)	Ysgol Lewis
16eg o Ebrill	Triptych Trio (Soprano, Soddgrwth a Phiano)	Ysgol Lewis
14eg o Fai	Pedwarawd Sacsoffon Lunar	Canolfan Siloh

Clecs Ysgol y Castell

Croeso cynnes i'r ysgol i blant bach y feithrin bore a phrynhawn Nant y Ceisiad. Maent yn fendigedig i'w gweld mor hapus a smart yn eu gwisgoedd ysgol.

Rydym yn croesawu dau athro newydd i'r ysgol eleni sef Miss Amber Golding, athrawes Nant Y Draenog (Bl.1) a Mr Gareth Robinson athro Nant Felen (Bl.5). Rwy'n siŵr bydd y ddau yn ymgartrefu gyda ni yn gyflym iawn.

Ymwelwyr â'r ysgol / Ymweliadau

Profiad arbennig oedd ymweliad Alun Evans (Alun Tan Lan) â'r ysgol. Derbyniodd yr athrawon a phlant Cyfnod Allweddol 2 wers gychwynnol ar sut i chwarae'r iwcaili. Nawr mae 'na glwb poblogaidd wedi'r ysgol.

Fe ddaeth Mr Colin Elsbury, Cadeirydd y Llywodraethwyr a Chynghorwr Sirol, i'r ysgol ddydd Mercher, Medi'r 3ydd er mwyn trafod rôl y Cyngor Ysgol gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Roedd llawer o gwestiynau gan y plant! Mae pob dosbarth eisoes wedi ethol eu cynrychiolwyr ac maent yn eiddgar iawn i fwrw ati i fod yn weithgar. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt a phob lwc.

Fe ddaeth Ann Lewis i sgwrsio gyda phlant Blwyddyn 5 i drafod gwaith Llysgenhadon yr Ysbyty. Dysgodd y plant am gefndir hanesyddol yr adeilad ac am gynlluniau'r dyfodol. Mae dau o blant Blwyddyn 5, sef Megan Morris a George Vaughan nawr wedi 'u henwebu i fod yn Llysgenhadon yr Ysbyty. Mae'r ddau yn falch o'r fraint!



Fe aeth plant Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â Blaenafon fel sbardun cychwynnol i'w gwaith thema ar Oes Fictoria. Dysgodd y plant drwy chwarae rôl a dysgu bod yr ysgol wedi newid tipyn ers y dyddiau hynny.



Sbardunwyd plant Blwyddyn 5 a 6 gydag ymweliad Miss Lowri Edwards â'r ysgol. Trefnodd weithgareddau chwaraeon iddynt er mwyn ysbrydoli'r plant gyda'u thema Pencampwyr

Llongyfarchiadau priodas

Priododd Miss Kayleigh Nash â Mr Gareth Roberts yn ystod gwyliau'r haf. Rydym yn awr yn ei chroesawu yn ôl fel Mrs Roberts. Dymuniadau gorau am briodas hir a hapus iddynt.

Siom i nifer ohonom oedd gweld arwydd “Ar Werth” y tu allan i un o addoldai cyfrwng Cymraeg hynaf y cwm. Sefydlwyd yr achos gan lowyr a ddaeth i'r Llanbradach newydd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwŷr a gwagedd oedd yn benderfynol o addoli yn eu mamiaith a hynny yn unol â dysgeidiaeth yr enwad Fedyddiol.



Pentref newydd sbon oedd Llanbradach pan sefydlwyd y capel, ond roedd y mewnfudwyr o sawl rhan o Gymru, a mannau eraill, yn benderfynol o lynu at eu traddodiadau addoli. A hynny yn eu hiaith eu hunain. Dim ond un addoldy sydd yn y pentref bellach, cymuned a welodd sefydlu capeli'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr a'r Methodistiaid gyda'r dewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob achos. Saesneg yn unig, fodd bynnag, oedd cyfrwng yr addoli yn yr Eglwys Wledig. Yr unig achos sydd wedi goroesi yw Ebenezer, capel y Bedyddwyr, cyfrwng Saesneg, ym mhen deheuol y pentref.

Teimlai aelodau Seion, ar hyd y blynyddoedd, gyfrifoldeb i gofio am enw Morgan John Rhys. Magwyd y cawr hwnnw ar fferm y Graddfa gerllaw pentref Llanbradach cyn i'r pentref hwnnw, wrth gwrs, ddod i fodolaeth. Sail ymlyniad yr aelodau oedd y gred mai i Seion fyddai'r Morgan John ifanc wedi dod petai eglwys Fedyddiol yno yn ystod ei oes. Fel y gwyddom, yr Hen Dŷ Cwrdd a fynychodd y teulu.

Yn 1944, yn nyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd, cofiwyd hanner can mlwyddiant sefydlu'r achos a hefyd dathlwyd y ffaith fod y ddyled wedi'i chlrrio. Yn rhan o'r dathliadau hynny nodwyd bod 140 mlynedd ers marw eu harwr lleol. A gosodwyd y plac hwn y tu mewn i'r capel.



Gwelir darn sylweddol o dir yn nhalcen y capel, fel y bu y tu blaen i gapel yr Annibynwyr Cymraeg (Neuadd yr Henoed erbyn hyn). Hefyd aeth nifer o flynyddoedd heibio cyn adeiladu drws nesa i gapel Ebenezer, Llanbradach. Yn Ystrad Mynach cofiwn fod darn sylweddol o dir yn wag y tu blaen i gapel Bryn Seion.

Adeiladwyd yr amryw addoldai hyn ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a phan ddaeth Diwygiad 1904 – 05 roeddent yn newydd a baich ad-dalu'r benthyciadau a wnaed i'w codi yn dal i fod yn drwm. Ond credir mai gweithred o ffydd oedd darparu'r tir ychwanegol yn y gobaith sicr y byddai galw am ymestyn y ddarpariaeth rhyw ddydd. Yn anffodus dyw'r diwrnod hwnnw ddim wedi gwawrio eto!

Gyda llaw, mae'r plac ym meddiant y Golygydd. Oes gan unrhyw un deimladau cryf ynglŷn â'r lle y dylid ei ailosod? Naill ai llyfrgell y pentref neu'r ganolfan gymunedol, mae'n debyg.

Gwledd ym Myd y Llyfr

Ymunwch ag un o gymdeithasau diwylliannol Cymraeg mwyaf llewyrchus y brifddinas. Mae Cylch Llyfryddol Caerdydd yn cyfarfod ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf.

Cynhelir y cyfarfodydd am 7.00 o'r gloch yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

£10 yw'r tâl aelodaeth am y flwyddyn gyfan.

Dyma raglen Gaeaf 2015–16:

Gwener, 25 Medi 2015

'Breuddwyd — Cerddi'r Goron.' Noson yng nghwmni'r Prifardd a'r Prif Lenor Manon Rhys, enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol 2015.

Gwener, 16 Hydref 2015

Sgwrs gan Bob Morris ar y testun 'Thomas Gee (1815–98): Saerniwr ynteu drych o'i gyfnod?'

Gwener, 20 Tachwedd 2015

Sgwrs gan Dr Simon Brooks ar y testun 'Pam na fu Cymru'.

Gwener, 15 Ionawr 2016

Sgwrs gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd ar y testun 'Yn ôl i'r Dref Wen'.

Gwener, 19 Chwefror 2016

Sgwrs gan Dr Llŷr Gwyn Lewis ar y testun 'Rhyw Flodau Rhyfel: Y ffin rhwng ffaith a ffuglen'.

Gwener, 18 Mawrth 2016

Sgwrs gan Anni Llŷn ar y testun 'Bod yn Fardd Plant Cymru'.

CROESO CYNNES I BAWB

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd:

Yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.



Bu'r Canon Aled Williams Llanllwni, Kees Huysmans Llanbed, Caryl Glyn Morris Aberaeron, Huw Davies Llangeitho, Lyndsay Cameron Tregaron, wythawd "Ffrindiau" â Neli Jones yn cyfeilio, yn brysur yn paratoi cryno ddisg ddwy ieithog o emynau dan y teitl HIRAETH AM GYMRU, dan arweiniad Gerald Morgan, Tregaron yn ddiweddar.

Cewch wrando ar hen ffefrynnau fel "Iesu, Iesu, Rwyf Ti'n Digon" ar Llwynbedw, Calon Lân, Mawlgan a Phantfyfedwen er enghraifft, yn ogystal â phedwar emyn newydd o waith Gerald Morgan er cof am bedwar unigolyn: Dewi Sant, Henry Richard, Yr Arglwydd Geraint o Bonterwyd a Gerwyn Morgan, Trebannau, Cellan, yn cael eu canu gan y gwahanol unawdwyr, gyda deuawdau gan Aled Williams a Kees Huysmans a chanu pedwar llais gan "Ffrindiau."

Cenir un emyn yn dair ieithog – yn Gymraeg a Saesneg gan Huw Davies, Llangeitho ac yn Sbaeneg gan Caryl Glyn Morris. Bu Mary Green, Trevelin, wrthi'n trosi un o emynau Gerald Morgan ar gyfer y ddisg. Bydd hanner elw'r gwerthiant yn mynd tuag at sicrhau parhâd addysg Gymraeg yn y Wladfa. Helpwch ni i'w helpu.

Cost: £5.99. Ar gael o Medical Hall a'r Swyddfa Bost yn Nhregaron neu drwy'r post oddi wrth: **Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG.**

Côr Cwm yr Aber yn Lorient



Wedi derbyn gwahoddiad annisgwyl i gynrychioli Cymru yng Ngŵyl Pan Geltaidd Lorient, Llydaw, ymateb y côr yn syth oedd “Te!” Rhoddodd y gwahoddiad i’r dynion (a’r fenyw) y symbyliad i fynychu ymarferion ddwywaith yr wythnos, i’w galluogi i berfformio’r detholiad amrywiol i fodloni chwant y gwrandawyr. Roedd yr Ŵyl ar gyfer pobol o Lydaw, Ynys Manaw, Cernyw, yr Iwerddon, yr Alban, Galicia a Chymru.

Gyda’r gerddoriaeth, y lifrau a’r bagiau cychwynnodd y côr ar eu taith ddydd Iau, y 6ed o Awst, gan gysgu dros nos ar fferi Plymouth i Roscoff a chyrhaedd Lorient amser cinio. Cynhaliwyd ymarferion gyda’r bandiau pîb Gwyddelig ac Albanaidd ym maes parcio ysgol leol, cyn profi sain yn Stadiwm Moustoir, cartref clwb pêl- droed Lorient sy’n dal 17,000.

Y diwrnod canlynol perfformiodd y côr am y tro cyntaf yn yr Espace Marine sy’n dal 15,500. Yma roedd y dynion i ganu am 25 munud ond, yn y diwedd, buont wrthi am 50 gan gynnwys 3 *encore*! Yr hyn roddodd fwyaf o fwynhad i’r gynulleidfa oedd y gân Ffrengig boblogaidd ‘Les Champs Elysees’, ‘California Dreaming’ a’r diweddglo gyda ‘When the Saints go Marching In’.

Yn hwyrach y noson honno, am hanner awr wedi hanner nos, canodd y côr yn eu gwasgodau newydd coch a theiau bwa yn y Stadiwm o flaen 8,000 o bobol. Canasant ‘Rachie’ ac ‘O Gymru’ i gymeradwyaeth frwdfrydig. Ymunodd y bandiau â’r côr wedyn i gloi’r noson gyda pherfformiad o ‘Amazing Grace’ a ‘Highland Cathedral’ dan arweiniad Geraint Evans. Yn dilyn hyn cafwyd arddangosfa anhygoel o dân gwyllt. Ail-adroddwyd y gyngerdd hon 4 gwaith yn ystod yr wythnos, a’r côr yn canu wedi hanner nos!!

Daeth dydd Sul â Gorymdaith Fawr liwgar, pan gerddodd y 74 grŵp o ddawnsyr, cantorion, pibau a drymiau a berfformiodd mewn amryw fannau yn Lorient drwy ryw 60,000 o bobol cyn cyrraedd y Stadiwm.

Canodd y dynion yn y pafiliwn Cymraeg brynhawn Sul a Mercher i gynulleidfa fawr werthfawrogol. Er bod ganddynt raglen eithaf cyfyng penderfynodd y côr eu bod am weld ryw faint o’r ardal gan ymweld â dinasoedd Vannes a Quimper, tref glan y môr Benodet a’r *Ville Close* (tref gaerog) ger Concarneau.




Gwelodd y noson olaf y côr yn perfformio mewn cyngerdd grefyddol yn Eglwys Saint Louise lle buont yn rhannu’r llwyfan â’r hyfryd Gwenan Gibbard, telynores a chantores. Roedd y perfformiad terfynol yn arbennig iawn pan gyflwynwyd y 1,000 o berfformwyr i gynulleidfa fawr iawn. Ac i ddod ag wythnos werth chweil i ben aeth y côr i far Ysgol Uwch lle rhoesant gyngerdd fyr fyfyr dwy awr i’w cyd-berfformwyr.

Dychwelodd y côr adre ddydd Gwener 14eg gan wybod iddynt loywi enw da Cymru a gan obeithio derbyn gwahoddiad yn ôl i’r digwyddiad hwn, y mwyaf o’i fath yn y byd.



Yr Urdd yn Catalunya

Dyma'r criw aeth ar daith gyda'r Urdd i Gatalunya dros yr haf. Un o'r wythnosau gorau rydym wedi eu cael a phawb o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Gwynllyw ac ysgolion cyfun Cymraeg eraill De Cymru wedi mwynhau yn fawr.



Neuadd y Gweithwyr, Caerffili




Mae criw diwyd wrthi'n ceisio adfer hen sinema neuadd gweithwyr Caerffili. Dim ond naw ohonyn nhw sydd wrthi ac maen nhw'n ceisio codi £70,000 er mwyn atgyweirio'r to, ffitio cafnau (*guttering*) newydd ac addurno'r tu mewn. Gwnaed elw bach y llynedd ond mae'r criw ymroddgar wrthi'n hyrwyddo adloniant a ddylai apelio at gylch eang o bobol.

Ar yr 11eg o fis Medi dangoswyd ffilm yn ymwneud â Streic y Glowyr, "*Still the Enemy Within*". Ar y 9fed o Hydref bydd y "*Sex Pistols Tribute Band*" yn perfformio tua 8 o'r gloch. Ond cyn hynny bydd Cymdeithas Tommy Cooper yn cyflwyno *defibrillator* ar gyfer defnydd y Neuadd. A chyn y sioe fawr bydd criw ambiwlans yno'n dangos sut i ddefnyddio'r offer hwn petai rywun yn dioddef o drawiad ar y galon yn y neuadd.

Ar gyfer eich dyddiadur mae'r ffilm boblogaidd "*Second Best Marigold Hotel*" ar y sgrin tua wyth o'r gloch nos Fawrth, 13eg o Hydref yn dilyn rhagflas o ffilmiau'r dyfodol. Ac mae Sioe Amrywiol ar y gweill ar gyfer yr 17eg o'r mis.

Gellir prynu hufen iâ a mwynhau paned yn y ciosg. Am fanylion pellach cysylltwch â Karina (Trefnydd Digwyddiadau) ar 07512237983 neu Fred Brooks ar 07801752811 neu ei e-bostio ar fredthemoverbro@yahoo.co.uk



Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Aethoch chi i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni? Ac aethoch chi i Maes D, pafiliwn y Dysgwyr? Fel rydych chi'n gwybod, aeth ein Pwyllgor i'r Eisteddfod ac *fe dreuliodd* Iestyn lawer o amser ym Maes D. Roedd e eisiau *gloywi ei Gymraeg* ac fe weithiodd e'n galed i siarad ac ysgrifennu yn fwy cywir. Dyma un o'r tasgau wnaeth e er mwyn gloywi ei iaith. Mae camgymeriad ym mhob brawddeg ac mae'r camgymeriad wedi ei **nodi**. Pob lwc – atebion mis nesaf!



Rwy't ti wedi colli **eich** sbectol.
Mae'r **merch** yn byw yn Aberhonddu.
Roedd tri **ceffyl** yn y cae.
Mae'r prifathro yn **cas** iawn wrth y plant.
Rydw i wedi brifo fy **coes**.
Wyt ti'n mwynhau mynd i'r Eisteddfod? **Ydy!**
Hoffet ti **dod** i'r sinema gyda fi?
Dwedodd e **roedd** y gêm rygbi yn wych.
Pa **gwlad** sy'n mynd i ennill Cwpan y Byd?
Mae e'n **gwybod** fy mrawd a fy nhad.

fe dreuliodd : he spent (time) gloywi ei Gymraeg : to improve his Welsh (literally to polish or shine)



Posau'r Plant gan Mary Jones

Beth yw'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Mae rhywun wedi cymysgu'r geiriau hyn. Allwch chi ddodi'r llythrennau yn y drefn iawn i wneud 9 gair am y cynhaeaf ?

menpwp

lafa

swatt

chyfaena

onrom

dolbau

scob

irine

lleggy

Mae'r ateb i'r ddau bôs ar dudalen 16..

Colofn Dafydd Islwyn

Anafiadau ar y cae rygbi, Ysgol Ramadeg Pengam a Stadiwm Wembley yn Llundain, sy'n cysylltu Mervyn Griffiths a Neil Phillips â'i gilydd.

Tra'n chwarae rygbi i Ysgol Sirol Abertyleri yn nauddegau'r hen ganrif, fe dorrodd Mervyn Griffiths ei drwyn. Fe'i cynghorwyd gan arbenigwr i gefnu ar chwarae'r gêm ac fe wnaeth hynny. Flynyddoedd yn ddiweddarach yr oedd Neil Phillips, brodor o Dredegar yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Pengam, disgybl a ddisgleiriodd ar y maes rygbi a chriced. Bu'n rhaid iddo yntau hongian ei esgidiau rygbi i fyny yn gynnar oherwydd iddo dorri asgwrn ei ben. Ar yr 2ail o Fai 1953, Mervyn Griffiths, a oedd yn athro ysgol gynradd yng Nghasnewydd oedd y dyfarnwr yn Rownd Derfynol Cwpan Lloegr




rhwng Blackpool a Bolton Wanderers. Roedd hi'n gêm fythgofiadwy..... "a wonderful game" y galwodd Mervyn Griffiths hi yn ei hunangofiant, 'The Man in the Middle', 1958. Blackpool enillodd y Cwpan o bedair gôl i dair, ar ôl bod ar ei hôl hi o dair gôl i un.

Mae'r gêm yn cael ei chofio am ddawn Stanley Matthews ar yr asgell dde i Blackpool. Mae R. Alun Evans yn ei ysgrif am ei fodryb Nim yn y gyfrol 'Modryb', Gwasg Gwynedd 2004, yn datgan ei edmygedd o Stanley Mathews. Cofir hefyd am ddawn Stanley Mortensen i sgorio gôls, ef a sgoriodd y tair gôl gyntaf i Blackpool.

Ond prin y bydd neb yn dwyn i go' Bill Perry a oedd yn chwarae ar yr asgell chwith i Blackpool. Ef a sgoriodd y gôl a enillodd y gêm i Blackpool. Ganwyd ef yn Ne Affrica ar

y 10fed o Hydref 1930 ac ymunodd â Blackpool o Johannesburg ym mis Tachwedd 1949. Ddiwedd ei yrfa chwaraeodd i Dref Caergybi.



Ar y 30ain o Orffennaf 1966 yn Wembley, Llundain, enillwyd Cwpan y Byd gan Loegr drwy guro Gorllewin yr Almaen, yn ôl 'Llyfr y Ganrif', Y Lolfa 1999. Prif feddyg tîm Lloegr y Sadwrn hwnnw oedd Neil Phillips. Ganwyd ef ar y 15fed o Ionawr 1932 yn Nhredegar, Sir Fynwy. Fe'i bedyddiwyd yn Ugo Neil Phillips oherwydd fod gan ei fam barch mawr at y meddyg Eidalaidd a'i gwarchododd yn ystod yr enedigaeth galed! Fe ollyngodd y bachgen yr enw ymhen blynyddoedd.

Penderfynodd fynd yn feddyg ar ôl sylwi mor hawdd y digwyddai anafiadau ar y maes chwarae. Pan oedd yn feddyg yn Redcar, Gogledd Lloegr, daeth i gysylltiad â Harold Shepherdson, clwb pêl-droed Middlesborough. Yn 1963, gan fod Shepherdson yn gweithio gydag Alf Ramsey, rheolwr Lloegr, fe gafodd Dr Phillips ei droed yn y drws pêl- droed gydag Alf Ramsey. Pan ddechreuodd ef ar ei waith di-dâl gyda Lloegr synnodd at y diffyg adnoddau oedd ar gael ym meddygfa maes ymarfer y tîm yn Lillleshall! Roedd y fferyllydd lleol ar ben ei ddigon pan alwai ef yn rheolaidd i'w weld. "Fe gadwodd Neil lygaid arnom er gwaethaf y cyfleusterau cyntefig oedd wrth ei benelin ar y pryd," oedd teyrnged Gordon Banks, gôl-geidwad Lloegr ar y 30ain o Orffennaf 1966.



Stan Mortensen

Er Cof am Ray



Yn dilyn ei farwolaeth, ym mis Mai, dathlwyd bywyd yr ymgyrchydd dros heddych hoffus, y Cynghorydd Ray Davies yn Nheml Heddych, Caerdydd, ar y 4ydd o Orffennaf. A hynny drwy ganeuon a mân hanesion.

Mae *dvd* o'r digwyddiad cofiadwy hwn ar gael nawr. Mae'n cynnwys recordiadau byw a rhai o'r ymgyrchoedd niferus y bu e'n rhan ohonyn nhw yn "Miners' Lifeguard", "Solidarity Forever", "Nkosi Sikelele". "The Wall", "Guantanamo" ac "Yma o Hyd" - o ganol acwstig anhygoel y Deml Heddych; a theyrngedau gan Wayne David A.S., Paul Flynn A.S., Lindsay Whittle A.C., Angharad Tomos ac eraill y cyffyrddodd Ray â'u bywydau.

Bydd yr elw o werthu'r *dvds* yn mynd tuag at apêl Ray am lifft i alluogi Neuadd y Gweithwyr, Bedwas i fod yn hygyrch i'r gymuned gyfan.

Tan 31ain o Dachwedd fe fydd y *dvds* ar gael am bris arbennig o £6 (lleiafswm y cyfraniad) yn ogystal â £1 ar gyfer costau postio.

Am fwy o wybodaeth neu i archebu copi o flaenllaw, cysylltwch â

Wendy Lewis
172 Pandy Rd
Bedwas
Caerffili
CF83 8EP

07415899661 Neu e-bostiwrch: wendya.lewis@sky.com <<mailto:wendya.lewis@sky.com>> neu corcochion@gmail.com <<mailto:corcochion@gmail.com>>



**GWNA DY APWYNTIAD YN
YSBYTY GWAETHA'R BYD!**



YSBYTY HOSPITAL

**5.00
BOB DYDD IAU**

s4c.cymru/stwnsh

Does byth eiliad dawel yn Ysbyty Hospital a bydd digon o hwyl a chwerthin yn y gyfres newydd sbon. Wyt ti'n gallu cwblhau'r chwila'r cyn i'r criw ddychwelyd ar 8 Hydref?

Th	E	M	N	A	T	U	D	U	R	W	G
O	R	O	H	L	A	T	J	O	G	W	B
W	C	Dd	Th	U	T	A	S	E	W	O	W
A	L	I	I	LI	W	B	A	I	E	I	R
I	E	O	D	P	S	L	L	U	L	D	Dd
N	F	N	U	L	R	E	Y	G	Y	A	Y
F	Y	S	J	O	S	D	Ch	N	Y	R	S
A	D	O	T	I	Ch	W	Th	F	D	L	B
T	Ch	C	N	S	L	G	I	I	P	E	Y
S	O	E	D	A	I	L	N	Rh	O	N	T
D	L	G	S	L	H	N	N	E	E	W	Y
G	W	A	LI	G	O	R	A	E	N	I	P

Ysbyty
Glenise
Tudur
radio
DJ Sal
gwely

Lois
moddion
doctor
Gwallgo
Owain
nyrs

Anni
clefyd
salwch
Judith
Poen
Tabled



Cwestiynau plant yn peri penbleth i rieni Cymru

Mae arolwg newydd o dros 1,000 o rieni Prydain wedi datgelu bod plant ifanc yn gofyn o leiaf 8 cwestiwn y dydd, gan adael mamau a thadau mewn penbleth sut i ateb o leiaf bedwar o'r ymholiadau hynny.

Yn ôl yr arolwg gan *Darllena.Datblyga*. (ymgyrch genedlaethol i gael pob plentyn 11 oed i ddarllen yn dda erbyn 2025) mae cwestiynau megis "o ble mae babis yn dod " ymhlith y cwestiynau mwyaf lletchwith i oedolion, gyda bron hanner rhieni Cymru yn yr arolwg yn dweud bod dod o hyd i ateb addas yn heriol.

Mewn ymateb i'r cwestiynau anodd yma sydd yn cael eu gofyn gan eu plant, dywedodd bron i hanner rhieni Cymru, os nad ydynt yn gwybod yr ateb y byddant yn cymryd yr amser i chwilio am yr ateb gyda'u plant neu'n dod o hyd i'r wybodaeth yn nes ymlaen yn y dydd. Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod llawer o rieni yn gweld cynnydd yn yr holi yn ystod gwyliau'r haf gyda 51.5% a 44.6% o rieni yn y drefn honno yn dweud bod diflastod a theithiau hir yn y car yn aml yn deffro chwilfrydedd eu rhai bach.

Er bod yr holl holi o bosibl yn straen ar rieni, yn ôl adroddiad *Darllena.Datblyga* (*Read On.Get On.*) mae'r math hyn o holi di-ddiwedd yn arwydd da i famau a thadau gan awgrymu bod gofyn llawer o gwestiynau 'pam?' yn farciwr allweddol ar gyfer datblygu iaith yn bump oed ac yn arwydd fod plentyn yn barod i ddysgu darllen pan fyddant yn mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth.

Er mwyn helpu rhieni i sgwrsio gyda'u plant bach cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol gynradd mae *Darllena.Datblyga* (*Read On.Get On*) mewn partneriaeth â'r cyhoeddwr *Ladybird* wedi lansio adnodd cenedlaethol am ddim o'r enw 'storïau sbardun' - gweithgareddau sy'n ceisio helpu teuluoedd i sgwrsio gyda'u plant i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae rhai o hoff gymeriadau plant yn llyfrau y cyhoeddwr *Ladybird* yn rhan o'r 'storïau sbardun', Peppa Pinc, Ben a Holly a Topsy a Tim i gyd wedi eu gosod mewn sefyllfaoedd sydd yn hwyl ac maent ar gael heddiw i'w lawrlwytho am ddim oddi ar ein gwefan ddwyieithog: *Darllena.Datblyga* - *Read On. Get On.*

I gael mwy o wybodaeth am *Darllena.Datblyga* ac i lawrlwytho pecyn 'storïau sbardun' gan *Ladybird*, ewch i wefan www.readongeton.co.uk

Cerddi'r Mis – “Croeso Merched y Wawr i Gaerffili”

Croeso mawr i fro Cwm Rhymni
Croeso mwy i dre Caerffili
Cawn gyd-ganu yma nawr
Am ein bod yn Ferched y Wawr

O dan gysgod muriau'r Castell
Fe aeth llawer dau i'r gangell,
Is y tŵr sy bron a chwympo
Fe ddaeth llawer dau i ffræo.

Yma i'r ffair y deuai'r merched
I geisio bechgyn i gyd gerdded
Ac os ofer fyddai'r chwilio
Cae'nt brynu caws er mwyn breuddwydio

Ie, croeso mawr i'r castell hynod
Gyda'i dŵr sydd ar ddisberod
Gobeithio gwelwn cyn noswyllo
Y Ladi Werdd yn hofran drosto.

GŴYL CERDD DANT

Llŷn ac Eifionydd, 12fed o Dachwedd 2016

Annwyl Gyfeillion,

Bydd yr Ŵyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Bwllheli yn 2016, ac yn cael ei chynnal yn adeilad Academi Hwyllo Cymru, sydd yn adeilad newydd sbon, nepell o draeth Glan Don yn y dref, sef Plas Heli. Y mae cynnwrf ac edrych ymlaen yn lleol am gael cynnal yr Ŵyl unwaith eto yn ardal Llŷn ac Eifionydd, a'r pwyllgorau eisoes wedi dechrau cyfarfod i wneud y paratodau.

Un o'r tasgau cychwynnol yw chwilio am nawdd i'r cystadleuthau, dros ddeg ar hugain ohonynt i gyd. Mae gwobrau ar gael yn yr adrannau canlynol:

Cerdd Dant
Y Delyn
Llefaru (i gyfeiliant unrhyw offeryn neu gyfuniad o offerynnau)
Canu Gwerin
Dawnsio Gwerin

Os ydych yn dymuno rhoi gwobr ariannol yn un o gystadleuthau yr Ŵyl, yna byddai'r ysgrifenyddion yn falch iawn o glywed gennych. Gellir cynnig gwobr/gwobrau yn dechrau am gyn lleied â £15 ar ran unigolyn, teulu, cymdeithas, neu er cof am rywun arbennig, a bydd y manylion yn ymddangos yn Rhaglen y Dydd.

Mae cyfrannu gwobr yn ffordd effeithiol iawn o gefnogi'r Ŵyl, a gall unrhyw un sy'n talu Treth Incwm y Deyrnas Unedig ychwanegu at ei gyfraniad trwy lenwi ffurflen Rhodd Cymorth. Gyda'r Rhodd Cymorth am bob £1 a gyfrennir, mae'r Ŵyl yn hawlio 25c gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Pe dymunech roi gwobr, neu am fwy o wybodaeth yn gyffredinol, yna cysylltwch ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Gwaith cyn diwedd mis Hydref os gwelwch yn dda:

Gwyn a Rhian Parry Williams, Rhos Eithin, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6TF. Ffôn: 01766 810717 neu e-bost: gwynarhian@btinternet.com


Diolch yn fawr, ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Llŷn ac Eifionydd yn 2016.

Yn gywir iawn,

Ken Hughes,

(Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a John Eifion, Trefnydd yr Ŵyl)

Yr atebion i'r ddau bôs "Posau'r Plant" oddi ar dudalen 13



pwmpen	moron
afal	blodau
tatws	bocs
cynhaeaf	eirin
gellyg	

Cinio Glyndŵr 2015



Bob dwy flynedd mae Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg yn gwahodd person amlwg ym mywyd Cymru i annerch cynulleidfa o gefnogwyr y Gronfa mewn cinio arbennig. Eleni fe edrychwn ymlaen at anerchiad gan yr Athro Laura McAllister, sy'n athro mewn llywodraeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae hi hefyd yn gadeirydd Chwaraeon Cymru.

Brodor o Ben-y-bont ar Ogwr yw Laura, ac mae o arwyddocâd arbennig ei bod wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Glyndŵr – yr Ysgol Gymraeg arbrofol a sefydlwyd ym Mhen-y-bont yn 1968 gan Trefor a

Gwyneth Morgan, sylfaenwyr Cronfa Glyndŵr.

Yn gynharach eleni fe gafodd ei hethol yn gymrawd yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru – yn gydnabyddiaeth o'i harbenigedd ym maes llywodraeth a datganoli, yn ogystal â'i chyfraniad at hybu statws menywod mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus.

Nid yw'n ofni dweud ei dweud! Fe gorddodd y dyfroedd mewn anerchiad yng Ngŵyl y Gelli eleni trwy awgrymu y byddai llwyddiant i dîm pêl-droed Chris Coleman yn gwneud mwy o les i ddelwedd Cymru na buddugoliaeth yng Nghwpan Rygbi'r Byd! Eglurodd mai dadl o safbwynt 'busnes' oedd hynny, wrth gwrs, a'i bod yn daer am weld Cymru'n llwyddo yn y **ddau** faes.

Mae'n siwr y bydd ganddi neges bwrpasol iawn i ni yng Nhinio Glyndŵr. Croeso i chi ymuno â ni – nos Sadwrn, 24 Hydref yng Nghlwb Golff Radur. Manylion pellach ar gael ar ein gwefan www.cronfaglyndwr.net (Digwyddiadau) neu drwy ffonio 029 20 566731.

A promotional image for the S4C program 'Ar y Dibyn'. It features a man in a red wetsuit standing in water on the left, and a woman in a blue jacket smiling on the right. The S4C logo is prominently displayed in the center. Text on the right provides details about the program.

S4C

Ar y Dibyn

9.30
8 Hydref

Brwydro yn erbyn yr elfennau dros fynyddoedd a llynnoedd - bydd wyth cystadleuydd yn wynebu cyfweiliad caletaf eu bywyd am swydd fel arweinydd antur awyr agored.

#arydibyn
s4c.cymru



Nos Iau, Tachwedd 5ed 2015

Y Parch Ddr R. Alun Evans

“Steddfota”

Clwb Rygbi Penallta, Ystad Mynach
7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd

!!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!!
TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195
[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)
Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

Lleoliad	Dyddiad Ffôn	
Canolfan Abertyleri	07/11/15	01495355895
Campws Casnewydd	05/12/15	01495333710
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	09/01/16	01633647647
Ysgol Cwm Rhymni	06/02/16	01633612245
Canolfan Trefynwy	27/02/16	01600712822
Canolfan GlynEbwy	16/04/16	01495455300
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	21/05/16	01633647647

Menter Iaith

Taith Distyllfa Penderyn (18+)

Taith tywys Cymraeg
Cyfle i brynu swper.
£20

Nos Wener, Tachwedd 13

Bwcio a thalu cyn Hydref 23

morganroberts@mentercaerffili.cymru
01443820913

Eisteddfod y Cymoedd

Nos Wener, Hydref 16eg am 5 o'r gloch
Ysgol Lewis i Ferched Ystrad Mynach

Beirniaid Cerddoriaeth	Osian Rowlands ac Aled John
Beirniad Llefaru a Llenyddiaeth Ieuencid	Ifan a Margaret Roberts
Beirniad Llenyddiaeth Agored	Llion Roberts
Beirniad Dawns:	Marie Evans
Beirniad Ffotograffiaeth	Gwyneth a Gwyn Davies
Cyfeilydd:	Bethan Phillips
Ysgrifenyddion	
Eirlys a Gwilym Thomas	01443812820
Pen Caer, 73 Heol Pengam,	gwilymt@sky.com




Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

ARDDANGOSFA

Llyfrgell Caerffili



9fed o Hydref – 19eg o Dachwedd
Dewch i weld neu i brynu
MYNEDIAD AM DDIM

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol
01495 333710

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	21-22/11/15
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	05-06/03/16
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun- Gwen	8.45-17.00	25-29/05/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

Côr Cwm Ni

YMARFER



Pob nos Fawrth

7:00

Ysgol Trelyn (Pengam)

Croeso i Aelodau

Newydd!!



Rhandir Menter Caerffili

Pob Dydd Gwener 10-12



Oes diddordeb gyda chi mewn garddio? Hoffech chi fod yn rhan o randir Menter Caerffili? Cwrdd bod Dydd Gwener am 10am, byddwn yn cwrdd yn y rhandir ar Stryd y Felin ger Parc Morgan Jones Caerffili.

Am fanylion cysylltwch / For details contact:
01443820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru



Clwb Cerdded

Pob Dydd Mercher 10 -12



01443 802832

Ymunwch â'r clwb cerdded. Am fwy o wybodaeth
cysylltwch gyda Morgan Roberts - Swyddog Prosiect
Llais Menter Caerffili: morganroberts@mentercaerffili.cymru

Gwasaneth ar gael yn y Gymraeg!!



Cysylltwch: 01443879396

Cwrs Trefnu Blodau

Safle'r Gwyndy

Ann Mears

Nos Lun,Hydref

12fed

18.30 – 20.30

£30 am 6

wythnos

Rhaid talu am y cwrs cyfan

Bethan 01443 820913



Merched y Wawr Cwm Rhymni

Ymunwch â ni yn Ashburne's, Heol Penallta, Ystrad Mynach



Nos Fercher 21 Hydref

ac wedyn y Viceroy of India

Enwau i Marian Fairclough ☹ faircloughme@aol.com neu

(02920 885151 erbyn 14 Hydref os gwelwch yn dda

Bydd croeso arbennig i aelodau newydd

I'ch Dyddiadur

16eg o Ragfyr.
Caerffili

22ain o Ragfyr
5ed o Ragfyr

Merched y Wawr, Noson gyda Hywel Gwynfryn Clwb Rygbi

7:00 Cyngerdd Corawl gyda Osian R:owlands, Castell Caerffili
Ffair Nadolig y Fenter yn Llancaiach Fawr 10.00 .

Llun y Mis



Yr Artist

Dorne Morgan yw ein hartist y mis yma. Mae hi'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol ond wedi byw yng Nghaerffili ers dros 40 mlynedd. Mae Dorne wedi bod â diddordeb mewn arlunio erioed ac erbyn hyn wedi datblygu ei chrefft mewn portreadau ac adar ac anifeiliaid.

Mae hi'n arddangos yn rheolaidd. Dewch i weld ei gwaith, a gwaith gweddill Grŵp Dydd Gwener, yn Llyfrgell newydd Caerffili rhwng y 9fed o Hydref a'r 19eg o Dachwedd. Beth am brynu llun yn anrheg Nadolig?